2 Mehefin 2020

Annwyl Breswylydd / Berchennog Busnes,

Pâr: Gwelliannau Parth Cyhoeddus Trefynwy – Cam 1

Mae *Griffiths* yn falch i gael eu penodi yn Brif Gontractwr gan Gyngor Sir Fynwy i gwblhau cyfnod cyntaf Cynllun Gwelliannau Parth Cyhoeddus Trefynwy.

Bydd ein gwaith, y rhagwelir fydd yn parhau am 14 wythnos, yn cychwyn ddydd Llun 15 Mehefin 2020. Bydd gwaith yn digwydd ar wahanol adrannau o'r B4293, yn cynnwys Stryd Mynwy, Sgwâr Agimcourt, Stryd Agincourt a Stryd Priordy (gweler y darluniad a atodir). I hwyluso ein gwaith ar dop Stryd Mynwy **(adran 5 yn unig fel yn y darluniad a atodir),** bydd y ffordd yn cael ei chau dros dro o ddydd Llun 15 Mehefin 2020 am tua 5 wythnos. Caiff y ffordd ei chau ar sail 24 awr a bydd arwyddion clir am lwybrau gwyro. Cedwir mynediad i gartrefi a busnesau - er y gall yr ardaloedd gwaith gyfyngu parcio. Caiff yr adrannau eraill sydd ar ôl eu cwblhau gyda defnyddio goleuadau traffig.

Bydd nodweddion allweddol ein gwaith yn cynnwys:

- Clirio'r safle
- Tyllu lonydd cerbyd a llwybrau troed presennol
- Ailadeiladu lonydd cerbyd a llwybrau troed
- Gosod cwrbyn ac ymylon
- Gosod draeniad
- Marciau ac arwyddion ffordd

Ein horiau gwaith fydd 08.00 i 17.00 (Llun-Gwener). Gofynnir i chi nodi y gall hefyd fod angen i ni weithio ar rai penwythnosau; os felly ein horiau gwaith fydd 08.00 - 13:00. Gall yr oriau hyn newid ac mae'r holl waith yn dibynnu ar y tywydd.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon am ein gwaith, cysylltwch os gwelwch yn dda â Georgie Davies, Swyddog Cyswllt â'r Cyhoedd ar gyfer y cynllun. Gellir cysylltu â Georgie rhwng 08.30 a 17.30 o'r gloch o ddyddiau Llun i ddyddiau Gwener drwy ffonio *0**3300 412 183**. Os ydych yn ffonio tu allan i'r oriau yma, neu os na all Georgie ateb, gadewch neges os gwelwch yn dda. Gallwch hefyd anfon e-bost at Georgie yn georgie.davies@alungriffiths.co.uk .

Diolch i chi am roi amser i ddarllen y llythyr yma.
Yn gywir iawn,

Alun Griffiths (Contractors) Cyf

**Codir y gyfradd alw genedlaethol ar alwadau i'r rhif hwn a'u cynnwys mewn cynlluniau munudau cynhwysol o linellau daear a ffonau symudol.*